



# Mae E'n fyw!

## Sut i *ddefnyddio'r* adnodd

Y 'Meaningful Chocolate Company' sy'n gyfrifol am greu'r adnodd gan ddefnyddio darluniau Alida Massari o'u llyfryn Wy Pasg 2017. Mae'r llyfryn yn cynnwys hanes y daith i Emaus.

Mae'r adnodd yn cyflwyno hanes o'r Beibl, cwestiynau, cyfle i feddwl a thrafod, crefft a gemau, syniadau addoliad ac yn gorffen gyda Helfa Wyau Pasg.

Cynnwys:

- Hanes y Pasg gan ganolbwyntio ar yr atgyfodiad a chyfarfod Iesu gyda'r dynion ar y ffordd i Emaus (cyflwyniad Ppt). Hefyd bydd cyfle i feddwl am y thema: "Yn fyw drwy berthyn i'r Meseia, Iesu," sef y bywyd newydd sydd i'w gael yng Nghrist.

- Gemau a syniadau am waith crefft sy'n dathlu'r Pasg; hefyd cyfle i drafod pam nad oedd y dynion ar y ffordd i Emaus yn adnabod Iesu'n syth.
- Syniadau ar gyfer addoliad

## Thema – Mae **e'n** fyw!

Thema: "Yn fyw drwy berthyn i'r Meseia, Iesu."

(Effesiaid 2)

## Dathlu ac addoli

## Gweddi


Ein Tad, helpa ni i ddeall hanes y Pasg a'r hyn wnaeth Iesu drosom ac yn ein lle. Amen

## Hanes y Pasg (Cyflwyniad PowerPoint)

## Cyflwyniad



Mae'r Pasg yn agosáu. Dw i'n sicr mai dyma dych chi'n feddwl amdano pan dych chi'n meddwl am y Pasg (dangos wy Pasg mawr ar hambwrdd)! Byddwch yn onest! Ond, mewn gwirionedd cofio am yr wythnos olaf ym mywyd Iesu ydyn ni yn ystod y Pasg. Mae'r Pasg yn amser i gofio am ei farwolaeth a'i atgyfodiad (sef y ffaith iddo ddod yn ôl yn fyw).




Beth am wrando ar hanes yr wythnos olaf ym mywyd Iesu? 2000 o flynyddoedd yn ôl, daeth Iesu a neges o obaith a chariad i'r byd. Roedd o'n athro arbennig ac fe ddewisodd llawer o bobl ei ddilyn. Roedd llawer yn credu y byddai Iesu'n frenin ar yr holl fyd.



Dyma be' ddigwyddodd yn ystod wythnos olaf ei fywyd: aeth Iesu i mewn i Jerwsalem ar gefn asyn. Roedd y bobl yn dathlu ac yn chwifio dail palmwydd i'w gyfarch. Ond, doedd pawb ddim yn dathlu. Roedd rhai pobl eisiau cael gwared ar Iesu.



Yn nes ymlaen yn ystod yr wythnos cafodd Iesu a'i ffrindiau arbennig (y disgyblion) swper olaf gyda'i gilydd. Cyn bwyta fe olchodd Iesu draed ei ffrindiau er mwyn eu dysgu nhw i wasanaethu a helpu eraill.



Yn ystod y swper cymerodd Iesu gwpan o win, adrodd gweddi o ddiolch, ac yna dweud wrth ei ddisgyblion, “Cymerwch hwn a'i rannu rhyngoch”. Yna cymerodd dorth o fara, ac yna, ar ôl adrodd y weddi o ddiolch, ei thorri a'i rhannu i'w ddisgyblion. “Dyma fy nghorff i, sy'n cael ei roi drosoch chi. Gwnewch hyn i gofio amdana i.” Yn ystod y swper sleifiodd/llithrodd dyn o'r enw Jwdas allan o'r ystafell. Roedd o'n mynd i fradychu Iesu wrth ddweud wrth ei elynion sut i'w ddal.



Ar ôl bwyta aeth Iesu a'i ffrindiau (y disgyblion) i ardd Gethsemane. Yno arestwyd Iesu, gan fod Jwdas wedi ei fradychu a dweud wrth ei elynion ble i ddod o hyd iddo.



Ar y dydd Gwener, roedd rhaid i Iesu sefyll ei brawf o flaen Peilat y llywodraethwr/arweinydd Rhufeinig. Penderfynodd Peilat gadw gelynion Iesu'n hapus wrth drefnu iddo gael ei groeshoelio. Gwisgodd y milwyr Iesu mewn clogyn ysgarlad, ac fe roddon nhw goron ddrain am ei ben.



Gorfodwyd Iesu i gario ei groes drwy strydoedd Jerwsalem.



Croeshoeliwyd Iesu yn y canol rhwng dau leidr. Pan fu Iesu farw bu daeargryn mawr, ac aeth y ddaear i gyd yn dywyll. Roedd Mair, mam Iesu, yn drist iawn, iawn.



Ar ôl i Iesu farw dyma un o'i ffrindiau'n cymryd ei gorff a'i lapio mewn lliain glân. Yna fe'i rhoddodd i orwedd mewn bedd, un wedi'i naddu yn y graig. Wedyn, ar ôl rholio carreg drom dros geg y bedd, aeth i ffwrdd.



Yn gynnar iawn fore Sul aeth rhai gwragedd at y bedd. Dyma nhw'n darganfod fod y garreg fawr oedd ar geg y bedd wedi'i rholio i ffwrdd, a phan aethon nhw i mewn i'r bedd doedd y corff ddim yno! Yna'n sydyn dyma ddau ddyn mewn dillad llachar yn sefyll wrth eu hymyl. Dyma'r dynion yn gofyn iddyn nhw, "Pam dych chi'n edrych mewn bedd am rywun sy'n fyw? Dydy Iesu ddim yma; mae yn ôl yn fyw!"



I ni mae hyn yn swnio'n amhosibl, ond mae'r Beibl yn dweud nad oes dim byd yn amhosibl gyda Duw.

Be ddigwyddodd nesa' tybed? Wel... fe ymddangosodd Iesu i rai o'i ffrindiau, ac wedyn i fwy ohonyn nhw. Mae'r Beibl yn dweud bod 500 o bobl ei weld e ar ôl iddo ddod yn ôl yn fyw. (1 Corinthiaid 15:6)

Dyma hanes dau ddyn a welodd Iesu ar ôl iddo ddod yn ôl yn fyw. Mae'r hanes yn y Beibl (Luc 24). Roedden nhw'n cerdded ar y ffordd o Jerwsalem i Emaus. Roedd y ddau ddyn yn drist iawn bod eu ffrind, Iesu, wedi marw. Roedden nhw wedi clywed stori gan rai merched bod bedd Iesu'n wag a'i fod e' wedi dod yn ôl yn fyw! Doedden nhw ddim yn gwybod be' i'w feddwl na'i gredu!

Wrth i'r drafodaeth fynd yn ei blaen dyma ryw ddyn yn dod atyn nhw a dechrau cerdded gyda nhw. Gofynnodd y dyn iddyn nhw, "Am beth dych chi'n dadlau gyda'ch gilydd?" Atebodd un o'r dynion, "Mae'n rhaid mai ti ydy'r unig berson yn Jerwsalem sy' ddim yn gwybod beth sydd wedi digwydd y dyddiau dwetha yma!" Doedden nhw ddim yn gallu credu nad oedd y dyn wedi clywed yr hanes am farwolaeth Iesu.



Pwy dych chi'n meddwl oedd y dyn a ddechreuodd gerdded gyda nhw?

Iesu? Os nad Iesu yna pwy arall? Pam doedden nhw ddim yn ei 'nabod? Be dych chi'n feddwl?

Ydych chi'n meddwl mai tric oedd e? Be' sy'n debygol o fod wedi digwydd?

Ydych chi'n meddwl fod Iesu'n edrych mor wahanol fel nad oedd y dynion yn ein 'nabod?

Ydych chi erioed wedi bod mewn siop neu allan yn y stryd a sylwi ar rywun a meddwl bod rhywbeth yn gyfarwydd amdanynt? Falle'ch bod chi'n meddwl eich bod chi'n eu 'nabod nhw, ond dydych chi ddim yn siŵr? Falle'ch bod chi'n edrych yn ofalus arnyn nhw ac yn ceisio penderfynu os dych chi wedi eu gweld o'r blaen ai peidio. Ydych chi'n holi eich hun, "Ble ydw i wedi eu gweld o'r blaen? Be' sy'

wedi newid? Ydyn nhw wedi tyfu'n dalach, newid eu steil gwallt, neu newid eu sbectol?"

Weithiau dyn ni'n cofio pwy oedd y person y diwrnod wedyn! Sut ydyn ni'n cofio? Be sy'n rhoi'r ateb i ni?

*(Efallai yr hoffech roi enghraifft o'ch profiad personol)*

Ar y ffordd i Emaus doedd ffrindiau Iesu ddim yn disgwyl ei weld. Roedden nhw'n meddwl ei fod wedi marw a'i gorff wedi ei roi mewn bedd. Yn yr hanes nid oedd y ddau ffrind wedi 'nabod Iesu nes iddo gymryd torth o fara, ei thorri a'i rhannu iddyn nhw.

## FE SYLWEDDOLON NHW RHAI PETHAU PWYSIG IAWN

Roedd Iesu'n wahanol i bob person arall. Roedd ganddo'r grym i wneud beth bynnag oedd e eisiau ei wneud. Roedd o'n gryfach na grym marwolaeth. Waw!

Mae Iesu eisiau i ni fod yn ffrindiau gydag ef. Mae Iesu eisiau i ni ddod i'w adnabod yn well. Mae e eisiau i ni wybod beth yw ystyr bod yn fyw drwy berthyn iddo ef a bod yn un o blant Duw.



Mae Iesu wedi dod i roi bywyd, a'r bywyd hwnnw yn fywyd ar ei orau i ni i gyd (Ioan 10:10).

Beth am ddysgu cân am y Pasg?

## Cân

Awgrymiadau: (*Mae'r rhain yn fywiog, syml ac yn addas i blant*)

Pan rwy'n cofio beth wnaeth Iesu i mi, does dim troi yn ôl i mi mwy;

A yw Duw yn farw? Na! Mae Ef yn fyw! (cliciwch **yma** i gael y Ppt a'r geiriau) neu unrhyw gân addas ar gyfer y Pasg.

Ar ôl y weddi fe gawn ni gyfle i glywed be ddigwyddodd ar ôl i Iesu atgyfodi!

## Gweddi

Annwyl Iesu,

Helpa ni i fod yn ffrindiau gyda thi. Helpa ni i wybod beth yw bod yn fyw drwy berthyn i ti. Rydyn ni eisiau profi dy nerth a dy gariad.

Amen



## Gweithgareddau gyda chyfle i feddwl a holi cwestiynau

Dyma 2 gêm ar gyfer tîmoedd. Wedi rhain, bydd cyfle i rannu'n grwpiau llai ar gyfer gweithgareddau crefft.

### Gweithgaredd 1 – i dîmoedd – Dodwy wyau Pasg!

Gêm syml! 2 x powlen o wyau Pasg yn un ochr yr ystafell a 2 x 'nyth' neu fwced wedi eu gosod ochr arall i'r ystafell. Rhannu'r plant yn 2 dîm. Y plant i sefyll mewn rhes tu ôl i'r wyau Pasg. Bwriad y gêm ydy cario'r wyau yn ofalus rhwng eu coesau, cerdded/rhedeg/neidio i ochr arall yr ystafell a 'dodwy'r' wy i mewn i'r 'nyth'. Y tîm cyntaf i 'ddodwy' eu holl wyau sy'n ennill.

Cwestiwn i'w ofyn: Pam ydyn ni'n defnyddio wyau i ddatlu adeg y Pasg? (Symbol o obaith a bywyd newydd.)

### Gweithgaredd 2 – Twne! i'r wyau!

Tiwbiau cardbord ar gyfer y plant ac wyau Pasg bach. Gwnewch yn sicr bod y wyau yn gallu ffitio tu fewn i'r tiwbiau cardbord. Marciwch lwybrau ar y llawr (gan ddefnyddio *Masking Tape*). Rhwng fwced ar ddiwedd y llwybrau. Rhaid i'r plant weithio mewn grwpiau o tua 4. Rhaid i'r wyau deithio drwy'r tiwbiau cardbord, ac mae aelodau'r grŵp yn gorfod symud eu tiwbiau yn eu tro i sicrhau twne! i'r wy'r holl ffordd i'r fwced. Y tîm sy'n rhoi'r mwya' o wyau yn y fwced sy'n ennill.

Cwestiwn: Ym mha ffordd mae wyau Pasg yn ein hatgoffa ni o atgyfodiad Iesu? (Mae rhai yn dweud bod siâp yr wy yn eu hatgoffa nhw o'r garreg gafodd ei rhoio i ffwrdd o geg y bedd.)

Gweithgaredd 3 –Dyfaluwch pwy.

Rhannu'r gynulleidfa i grwpiau cymysg o ran oedran. Mae yna ddogfen i'w argraffu sy'n cynnwys lluniau o 12 cymeriad adnabyddus. Dim ond rhan o'r cymeriad sydd i'w weld. Rhaid i'r tимоedd ddyfalu pwy sydd ym mhob llun.

Atebion: 1. Kermit 2. Dennis the Menace 3. Sam Tân 4. Sali Mali 5. Tomos y Tanc 6. Very Hungry Caterpillar 7. Tracy Beaker 8. Wallace 9. Bob y Bildar 10. Postman Pat 11. Blossom 12. Sooty

Cwestiwn: Pam fod rhai pobl yn anoddach i'w 'nabod nag eraill?

Gweithgaredd 4– Addurno wyau wedi'i berwi

Os ydych eisiau ysbrydoliaeth edrychwch ar y we! Medrwnch addurno wyau wedi'i berwi neu rhai wedi eu gwneud o bren neu bapur.

Cwestiwn: Beth yw gwir ystyr y Pasg?

Gweithgaredd 5 – Gwneud mwgwd

Lliwio ac addurno mwgwd. Mae yna lawer o syniadau ar y we - chwiliwch am, '*masks from paper plates*'.

Gweithgaredd 6 – Gwisgo lan!

Beth am baratoi bocs o ddillad gwisg ffansi a chael pawb i wisgo lan? Neu, beth am ddefnyddio colur i wneud y plant edrych yn wahanol e.e. yn hen? Edrychwch yma am syniadau:-  
<https://www.youtube.com/watch?v=NwLCUmhM2OU>

Cwestiwn: Petai chi eisiau edrych yn gwbl wahanol be fydddech chi'n ei wneud?

Gweithgaredd 7– Nyth o '*Shredded wheat*'

Rysâit:

<http://www.bbcgoodfood.com/recipes/2066656/shredded-wheat-nests>

Cwestiwn: Ydych chi'n meddwl fod y Pasg yn bwysig?

Gweithgaredd 8– Helfa wyau Pasg